



## **Cofnodion Cyfarfod Rhithiol y Pwyllgor Gwaith a gynhaliwyd brynhawn Iau y 19<sup>eg</sup> o Awst 2021 2:00 y.p.**

### **Yn Bresennol**

Iona Evans	Cadeirydd
Hywel Madog Jones	Is-gadeirydd
Margaret Roberts	Trysorydd
Gareth Wyn Jones	Ysgrifennydd

Duncan Brown, Eirian Davies, Robert Evans, Dafydd Horan, Dafydd Lewis, Carys Parry, Gwyn Roberts, Iwan Roberts, Alan Williams, Phillip Williams a Jackie Willmington (Ysgrifennydd Cofnodion).

### **1. GAIR O GROESO GAN Y CADEIRYDD**

Estynnodd y Cadeirydd groeso i bawb gan ddiolch iddynt am ymuno â chyfarfod rhithiol arall.

### **2. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB**

Derbyniwyd ymddiheuriadau oddi wrth John Griffith ac Elizabeth Roberts.

### **3. DERBYN COFNODION CYFARFOD O'R PWYLLGOR GWAITH A GYNHALIWDYD AR Y 20<sup>fed</sup> O Fai 2021**

Cynigiodd Gwyn Roberts ac eiliodd Margaret Roberts dderbyn cofnodion y cyfarfod fel rhai cywir.

### **4. MATERION YN CODI O'R COFNODION**

#### **(i) Cofnod 4i): Ystyried rhinweddau cyfleusterau tanysgrifiad Zoom a Google**

Dywedodd yr Is-gadeirydd iddo sefydlu enw parth newydd "edwardllwyd.cymru" yn gysylltiedig â chyfrif "Google Workspace" y Gymdeithas ac yn bwriadu cadw'r hen enw parth "edwardllwyd.org" at ddefnydd y gweinyddwyr (HMJ a JW).

Adroddodd mai dim ond hanner aelodau'r PG oedd wedi cofrestru drwy fewnlofnodi i'w cyfrifon e-bost newydd ac esboniodd na ellir symud i'r camau nesaf hyd nes i bawb gwblhau'r gorchwyl hwnnw. Tynnodd yr Is-gadeirydd sylw fod y cyfrineiriau cychwynnol yn dod i ben ar ôl 48 awr a dywedodd y byddai'n anfon cyfrineiriau newydd. Cynigiodd roi cymorth dros y ffôn os bydd angen. Mynegodd ychydig o aelodau amheuaeth eu bod wedi derbyn e-bost gan Google yn eu gwahodd i fewnlofnodi. Cytunwyd y byddai pawb yn rhoi gwybod i Hywel Madog os nad oeddent wedi derbyn y fath neges erbyn 24.08.2021.

Mynegodd ychydig o aelodau bryderon ynglŷn â defnyddio system newydd ac awgrymodd Carys Parry gynnal prosiect peilot cyn ymrwymo i “Google Workspace”. Pwysleisiodd yr Is-gadeirydd werth gallu trosglwyddo cyfrif e-bost at olynedd unrhyw swyddog a phwysigrwydd diogelu eiddo digidol y Gymdeithas. Nodwyd y byddai'n ddymunol cynnal cyfarfod o'r is-bwyllgor yn fuan (gweler cofnodion PG mis Mai 2021).

Esboniodd yr Is-gadeirydd ei fod yn bwriadu ymchwilio cyfleusterau “Charity Digital”, yn ôl awgrymiad Dafydd Lewis, ond ei fod wedi gohirio nes bod holl aelodau'r PG wedi cofrestru gyda “Workspace”.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Is-gadeirydd am ei waith.

(ii) Cofnod 7: Defnydd o rodd Anne Gwynne i goffrau'r Gymdeithas

Adroddodd y Cadeirydd i'r Gymdeithas dderbyn un cais, yr hwn a amlinellwyd mewn dogfen a ddosbarthwyd cyn y cyfarfod. Cynigiodd Duncan Brown benodi ymchwilydd i ddadansoddi'r trawsgrifiad o ddyddiadur Owen Edwards a gofnododd weithgareddau amaethyddol a chymdeithasol yn ardal Porthmadog tua 10 mlynedd ar ôl codi'r Cob. Awgrymwyd y dylid gofyn am allbwn penodol, er enghraifft erthygl neu erthyglau i'r Naturiaethwr neu'r Cylchlythyr.

Cytunwyd y gallai Duncan gynnal ymgynghori ymhellach â Paula Roberts, Prifysgol Bangor, ynglŷn ag ymchwilydd addas. Ychwanegodd Duncan y byddai'n codi'r mater gydag aelodau Panel Llên Natur. Cytunodd yr Ysgrifennydd i esbonio'r prosiect dichonol i Anne Gwynne a gofyn ei barn (**pwynt gweithredu**).

Dywedodd yr Is-gadeirydd fod John Griffith wedi awgrymu cefnogi ymdrech i ychwanegu enwau Cymraeg at yr ap PI@ntNet sydd yn adnabod planhigion. Nodwyd bod angen ymchwilio argaeledd y Gymraeg ar nifer o aps i naturiaethwyr, er enghraifft “Seek” gan iNaturalist, ap adnabod coed y Woodland Trust ac ap adnabod caneuon adar yr RSPB. Cytunwyd i ystyried prosiect o'r fath os na fydd yn bosibl dadansoddi dyddiadur Owen Edwards.

## 5. TREFNIADAU'R CYFARFOD BLYNYDDOL

Dywedodd yr Ysgrifennydd fod y Llywydd yn fodlon i'r Gymdeithas gynnal y Cyfarfod Blynyddol drwy Zoom am 7:30 ar nos Wener 15<sup>fed</sup> Hydref 2021. Cadarnhawyd bod y dyddiad wedi ymddangos yn y Cylchlythyr. Dywedodd yr Ysgrifennydd y byddai Nia Haf Jones yn rhoi darlith ar ôl y Cyfarfod.

Cytunwyd i gynnal y Cyfarfod drwy ddefnyddio cyfrif Zoom yr Ysgrifennydd Cofnodion a chynghorwyd i osgoi cyhoeddi'r linc drwy ofyn i aelodau gofrestru ymlaen llaw. Nodwyd y byddai rhaid anfon yr Agenda a chofnodion cyfarfod 2019 atynt drwy e-bost.

Cytunodd yr Is-gadeirydd i fraslunio datganiad i'r wefan yn esbonio'r weithdrefn ar gyfer cofrestru ac enwebu swyddogion (**pwynt gweithredu**). Tynnodd y Trysorydd sylw nad yw'r Gymdeithas wedi derbyn cyfeiriadau e-bost tua 150 aelod. Penderfynwyd apelio am gyfeiriadau drwy'r wefan (**pwynt gweithredu**). Awgrymwyd anfon llythyr at aelodau nad oedd wedi cofrestru cyfeiriad e-bost erbyn mis cyn y Cyfarfod. Cytunodd yr Ysgrifennydd i baratoi llythyr yn gofyn am gyfeiriad e-bost ac esbonio'r weithdrefn ar

gyfer enwebu swyddogion a phleidleisio drwy ddirprwy yn y Cyfarfod Blynyddol (**pwyt gweithredu**).

Trafodwyd rhoi gwybod i aelodau heb e-bost am weithgareddau'r Gymdeithas tra bod Covid yn rhwystro cyhoeddi rhaglen lawn yn y Cylchlythyr. Penderfynwyd rhoi cyngor iddynt gysylltu â'r Trefnyddion dros y ffôn. Awgrymwyd hysbysebu ar "Galwad Cynnar" ac yn y papurau bro. Tynnodd Rob sylw y byddai'n bosibl i'r Lolfa gynnwys llythyr i'r aelodau heb e-bost yn unig wrth bostio'r cylchgronau.

Cytunodd y Swyddogion a oedd yn bresennol eu bod yn fodlon sefyll i gael eu hail-ethol er i'r Cadeirydd dynnu sylw ei bod wedi aros yn y swydd am flwyddyn ychwanegol oherwydd Covid ac y byddai'n well ganddi petai'r Gymdeithas yn chwilio am olynnydd. Cadarnhaodd Hywel Madog nad oedd yn dymuno bod yn Gadeirydd ac y byddai'n fodlon ildio'r Is-gadeiryddiaeth petai hynny'n hwyluso penodi Cadeirydd newydd.

Tynnwyd sylw bod Twm Elias wedi'i restru ymhlith aelodau'r PG fel cynrychiolydd yr Is-bwyllgor Enwau a Thermau ond bod Duncan Brown bellach yn cynnwys gwaith yr is-bwyllgor yn adroddiad Llên Natur. Cytunwyd y byddai'r Ysgrifennydd yn ysgrifennu ato a chynnig Is-lywyddiaeth anrhydeddus i Twm (gweler cofnodion Cyfarfod Blynyddol 2018).

Nodwyd na allai Tudur Pritchard fynychu cyfarfodydd rhithiol oherwydd anawsterau technegol.

Tynnodd Dafydd sylw fod angen gwaed newydd ar y PG er mwyn sicrhau y bydd olynwyr i'r Prif Swyddogion presennol.

## **6. PENODI TREFNYDD GWEITHGAREDDAU NEWYDD I'R GOGLEDD ORLLEWIN**

Dywedodd yr Is-gadeirydd fod John Griffith yn dymuno tynnu'n ôl o fod yn Drefnydd Gwynedd a Môn, gan na allai ragweld mynychu teithiau'n gyson, er ei fod wedi mynegi ei fodlonrwydd i roi cymorth i'r Trefnydd newydd os bydd angen. Ychwanegwyd bod John hefyd yn bwriadu tynnu'n ôl o'r PG.

Diolchodd y Cadeirydd i Hywel Madog am weithredu fel Trefnydd dros dro. Dywedodd yr Is-gadeirydd ei fod yn fodlon parhau i drefnu gweithgareddau fesul mis ond yn y pen draw byddai angen Trefnydd a allai baratoi rhaglen lawn i'w chyhoeddi yn y Cylchlythyr. Cadarnhaodd fod ganddo enw mewn golwg ond na chysylltwyd â'r aelod eto a byddai'n croesawu derbyn awgrymiadau eraill.

Mynegwyd siom bod y PG yn colli cyfraniad John. Cytunodd yr Ysgrifennydd i anfon llythyr ato gan ei ddiolch am ei waith fel Trefnydd a gofyn a fyddai'n ail-ystyried tynnu'n ôl o'r PG yn gyfan gwbl (**pwyt gweithredu**).

## **7. CYNNAL CYSTADLEUAETH FLYNYDDOL I DDYSGWYR YN Y NATURIAETHWR**

Dywedodd Dafydd Lewis iddo dderbyn saith cais teilwng. Awgrymodd fod y gystadleuaeth yn ddull effeithiol o hybu dysgwyr a dylid cynnig cystadleuaeth debyg bob blwyddyn gyda gwobr o £150. Sylwodd yr Is-gadeirydd bod yr ymateb i'r gystadleuaeth a noddwyd gan y Gymdeithas yn Eisteddfod yr Urdd yn wael o'i gymharu. Cytunwyd i gynnal cystadleuaeth i ddysgwyr yn 2022 a'i hysbysebu mor eang â phosibl.

## **8. MEITHRIN CYSYLLTIAD GYDA CHYFRANWYR AMRYWIOL I'R CYLCHLYTHYR**

Esboniodd Gwyn Roberts ei fod wedi derbyn dau ddarn am yr un daith ac yn dymuno gwella cydlyn cyfranwyr cyson drwy sefydlu grŵp e-bost. Dywedodd y byddai'r fath grŵp yn ddefnyddiol hefyd wrth chwilio am luniau i'r Cylchlythyr. Nid oedd gwrthwynebiad. Tynnodd yr Is-gadeirydd sylw y dylai ddefnyddio cyfrif Google y Gymdeithas am bwrpasau tebyg yn y dyfodol.

## **9. TRAFOD YR ANGEN AM GOFRESTRU CERDDWYR AR DEITHIAU MAES**

Cyfeiriodd yr Is-gadeirydd at ddogfen ynglŷn â rheolau Covid a ddisbarthwyd cyn y cyfarfod a nododd iddo dderbyn ychydig o sylwadau. Tynnodd sylw nad oedd yn angenrheidiol bellach i gyfyngu ar niferoedd ar deithiau ond dylid parhau i gydymffurfio â rhagofalon rhesymol, gan gynnwys cofnodi manylion cyswllt cerddwyr. Cytunwyd nad oedd rhaid i aelodau gofrestri cyn mynychu taith, oni bai bod cyfyngiad ar niferoedd am resymau ar wahân i Covid, ond dylai'r Arweinydd neu'r Trefnydd gofnodi enwau cerddwyr cyn cychwyn ar y daith. Cytunwyd hefyd i ddychwelyd at y drefn o ganiatáu i westeion "flasu" taith cyn ymaelodi.

Diolchodd y Cadeirydd i Hywel Madog am ei waith ar bolisi Covid y Gymdeithas.

## **10. YR ANGEN AM YMHOLI AR GYFER LLEOLIAD CYFARFODYDD YN Y DYFODOL**

Esboniwyd bod nifer o aelodau'r PG yn edrych ymlaen at gwrdd wyneb yn wyneb pan fydd y sefyllfa o ran Covid yn caniatáu ond byddai ychydig ohonynt yn gwerthfawrogi'r cyfle i barhau i ymuno â chyfarfodydd yn rhithiol. Awgrymwyd chwilio am ystafell gyfarfod mewn gwesty neu ym Mhrifysgol Aberystwyth lle byddai cyfleusterau technegol ar gael.

Atgoffwyd y PG gan y Cadeirydd eu bod wedi penderfynu cwrdd yn rhithiol ym mis Tachwedd ond gobeithiodd y byddai'n bosibl i gwrdd wyneb yn wyneb ym mis Mai.

## **11. ADRODDIADAU'R SWYDDOGION A'R IS-BWYLLGORAU**

### **i) Is-Bwyllgor Llên Natur**

Adroddodd Duncan:-

1. Bu digwyddiad "Bioblitz" llwyddiannus yng Ngwern Gof Isaf lle'r oedd cyfle i siarad â llawer o bobl a chysylltu â nifer o sefydliadau eraill.
2. "Glas" yw teitl newydd e-fwletin Llên Natur.
3. Mae cofnodi enwau Cymraeg gwyfynod micro ar y gweill.
4. Mae trawsgrifiad dyddiadur Owen Edwards ar gael yn y "Tywyddiadur" ar wefan Llên Natur.

Trafodwyd diogelu data Llên Natur ac, er bod copi wrth gefn o'r wefan, cytunwyd ymchwilio mesurau ychwanegol, er enghraifft storio data yn "Google Workspace". Nodwyd y dylai fod yn hawdd creu copi wrth gefn o'r testun ond gallai storio copïau o luniau fod yn gostus. Tynnodd Duncan sylw fod tudalen Weplyfyr "Cymuned Llên Natur" yn gweithredu i ryw raddau fel storfa lluniau.

Gofynnodd Dafydd Lewis pam ystyriodd Duncan fod yr ymateb i'r prosiect "Llygaid Bach" yn siomedig (gweler cofnodion PG mis Mai 2021 eitem 9i ). Esboniwyd mai dim ond un cyfrannwr sy'n darparu materion megis posterï'n gyson. Awgrymodd Gwyn Roberts ddsbarthu deunydd "Llygaid Bach" yn ehangach drwy ei gynnwys yng nghanol y Cylchlythyr.

Diolchodd y Cadeirydd i Duncan am ei holl waith

ii) Y Trysorydd

Cyfeiriodd y Trysorydd at y fantolen a ddsbarthwyd drwy e-bost. Dywedodd fod £49,827.75 mewn llaw ar 19<sup>eg</sup> Awst 2021, gan gynnwys £10,145.40 a £7,272.95 mewn bondiau Banc Hodge. Dangoswyd gwariant o £1,461.02 rhwng 18.05.2021 a diwedd y flwyddyn ariannol a £3,952.28 rhwng 01.07.2021 a 19.08.2021. Argraffu a dosbarthu'r Cylchlythyr a'r Naturiaethwr oedd y costau mwyaf sylweddol. Derbyniwyd incwm o £741.44 rhwng 18.05.2021 a diwedd y flwyddyn ariannol ac £11,288.51 rhwng 01.07.2021 a 19.08.2021, swm sydd yn cynnwys y rhan fwyaf o'r taliadau aelodaeth. Rhestrwyd gwerth tua £3,250 o eitemau y disgwyliid eu talu yn y dyfodol agos, gan gynnwys offer newydd i stondin y Gymdeithas yn Eisteddfod 2022.

Trafodwyd a ellid lleihau costau ac effeithiau ar yr amgylchedd drwy argraffu llai o gopiâu o'r cylchgronau ond tynnwyd sylw bod angen copiâu i'w dosbarthu yn Eisteddfod 2022 a phenderfynwyd yn erbyn newid y drefn bresennol.

iii) Yr Ysgrifennydd Aelodaeth

Dywedodd Rob Evans ei fod wedi anfon llythyrau at y 80 aelod sydd yn talu â siec ac adroddodd fod 39 wedi talu. Bwriadwyd anfon e-bost at aelodau nad ydynt wedi talu. Nodwyd bod 12 o bobl wedi ymaelodi yn ystod y misoedd diweddar.

Cytunwyd y byddai Rob yn gofyn i'r Lolfa ynglŷn â'r posibilrwydd o gynnwys llythyr at aelodau heb gyfeiriadau e-bost yn yr un amlen â'r Cylchlythyr.

Dywedodd iddo fwriadu ail-gydio mewn anfon erthyglau i bapurau bro. Cynhwyswyd tudalen am y Gymdeithas yn y Wennol. Disgwyliid cyfle i ddsbarthu cylchgronau'r Gymdeithas yn ystod taith gerdded i ddysgwyr ym Mlaenau Gwent.

Dywedodd y Cadeirydd ei bod yn falch o glywed bod y Gymdeithas wedi denu aelodau newydd yn ystod blwyddyn heb Eisteddfod Genedlaethol.

iv) Trefnyddion Gweithgareddau

Dywedodd Iwan Roberts ei fod wedi trefnu teithiau yn y Gogledd Ddwyrain yn ail hanner mis Awst, yn gynt na'r rhanbarthau eraill, gan gynnwys taith yn Sir Drefaldwyn lle mae diffyg arweinwyr. .

Adroddodd Eirian Davies fod rhaglen y De a'r Canolbarth yn barod. Cadarnhaodd ei fod yn dal i hysbysebu teithiau ar dudalen Weplyfr y Gymdeithas ond yn anffodus nad yw Weplyfr bellach yn anfon e-byst awtomataidd at aelodau sydd yn "dilyn" y dudalen. Tynnodd sylw fod 1,000 o ddilynwyr a dwedodd ei fod yn edrych ymlaen at gwrdd â'r rheini nad ydynt yn aelodau yn Eisteddfod 2022 a'u darbwyllo i ymaelodi

Dywedodd yr Is-gadeirydd bod rhaglen mis Medi Gwynedd a Môn yn barod i'w chyhoeddi ar y wefan ac eithrio un bwllch.

v) Golygydd y Cylchlythyr

Dywedodd Gwyn Roberts iddo dderbyn ymateb calonogol i'r eitemau a gynhwyswyd yn y Cylchlythyr i lenwi'r bwlch a grëwyd gan absenoldeb darnau am deithiau. Derbyniwyd cais i atgynhyrchu hanes y bechgyn ar goll yn y mynyddoedd ["Trychineb Llungwyn 1904 ar y Mynydd Du" gan Arwel Michael. *Ysg Cof.*].

Ychwanegodd y Golygydd ei fod yn gobeithio cynhyrchu cylchgrawn mwy swmpus yn y dyfodol a thynnodd sylw mai 01.01.2022 yw'r dyddiad cau am y rhifyn nesaf.

vi) Golygydd y Naturiaethwr

Tynnodd Dafydd Lewis sylw fod eitem am ail-lansio "Natur Cymru" yn rhifyn yr haf ac adroddodd iddo dderbyn gwahoddiad i gyfrannu erthygl i'r cylchgrawn hwnnw.

Diolchodd y Cadeirydd i'r ddau Olygydd.

**10. GOHEBIAETH** Dim

**11. UNRHYW FATER ARALL** Dim

**12. DYDDIADAU CYFARFODYDD NESAF** 16:00 15 Hydref, cyn y cyfarfod blynyddol

Diolchodd y Cadeirydd i bawb am fynychu'r cyfarfod.